Busnes Cymdeithasol Cymru

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Canllaw ar gyfranddaliadau - perchenogaeth



Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cynnwys

Rôl cyfranddaliadau mewn cwmni seiliedig ar gyfranddaliadau a berchnogir gan y gweithwyr 3

Beth yw Cyfranddaliadau? 3

Pam fyddai pobl yn dymuno bod yn berchen ar gyfranddaliadau? 3

Pwy sy'n berchen ar gyfranddaliadau mewn cwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr? 3

Pa fath o gyfranddaliadau y mae cwmnïau'n eu defnyddio? 4

Sut arall all cyfranddaliadau fod yn wahanol? 5

Sut y caiff cyfranddaliadau eu rheoli? 5

A yw bod yn gyfranddaliwr yn golygu fy mod yn cael pleidleisio ar yr hyn y mae'r busnes yn ei wneud? 6

A yw mwy o gyfranddaliadau'n sicrhau difidendau mwy a mwy o lais? 6

A ydw i'n cael pleidlais yn awtomatig fel cyfranddaliwr? 6

Sut mae fy nghyfranddaliadau'n cael eu prisio? 7

Beth sy'n digwydd os ydw i'n dymuno gwerthu fy nghyfranddaliadau? 7

A oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â bod yn gyfranddaliwr? 7

A oes unrhyw oblygiadau o ran treth yn gysylltiedig â bod yn gyfranddaliwr? (ar sail cyfraddau treth 2014/15 CThEM) 8

Rhagor o wybodaeth 8

Cyhoeddwyd gan Fusnes Cymdeithasol Cymru, 9 Tachwedd 2015

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Nid yw Busnes Cymdeithasol Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gynnwys y canllaw hwn, nac am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail yr wybodaeth a roddir.

Mae copïau o'r canllaw hwn ar gael yn /busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Hefyd ar gael yn Saesneg. Hefyd ar gael mewn fformat print bras.

# Rôl cyfranddaliadau mewn cwmni seiliedig ar gyfranddaliadau a berchnogir gan y gweithwyr

Mae nifer fawr o gwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn gweithredu strwythur lle mae eu gweithwyr hefyd yn gyfranddalwyr uniongyrchol yn y busnes ac yn fuddiolwyr i ymddiriedolaeth a all hefyd ddal cyfranddaliadau yn y cwmni ar ran yr holl weithwyr.

Nod yr arweiniad hwn yw rhoi trosolwg ymarferol o gyfranddaliadau mewn cwmni cyfyngedig preifat i helpu gweithwyr-berchnogion i ddeall rôl gyffredinol cyfranddaliadau a rhai o'u hawliau fel cyfranddaliwr unigol.

# Beth yw Cyfranddaliadau?

Pan fo cwmni'n cael ei ffurfio bydd y sylfaenwyr yn nodweddiadol yn buddsoddi swm o arian i ddechrau'r busnes a rhoi arian iddo gyllido ei weithrediadau. Cyfeirir at yr arian a fuddsoddir ar yr adeg hon fel cyfalaf y cwmni.

O'i roi yn syml, ystyr cyfranddaliad yw rhan-berchnogaeth ar gwmni. Mae'r rhan-berchnogaeth hon yn rhoi hawl i'r perchennog gael cyfran o'r elw, a chymryd bod y cwmni'n gwneud elw, neu mae'n rhoi cyfle i fod â llais mewn penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â'r cwmni megis pa gyfarwyddwyr sy'n eistedd ar y Bwrdd. Gallai'r rhan-berchnogaeth hon gael ei gwerthu i rywun arall hefyd am swm uwch nag y'i prynwyd amdano'n wreiddiol, a chymryd bod y cwmni wedi gwneud mwy o elw ers i'r cyfranddaliad gael ei berchnogi gyntaf.

Gallai un unigolyn, grŵp o aelodau o'r un teulu, neu yn wir gant a mil o wahanol bobl fod yn berchen ar y cyfranddaliadau sydd wedi'u dyroddi gan gwmni arbennig.

Cyfeirir fel arfer at bobl sy'n berchen ar gyfranddaliadau fel cyfranddalwyr neu aelodau o'r cwmni.

# Pam fyddai pobl yn dymuno bod yn berchen ar gyfranddaliadau?

Mae pobl fel arfer yn penderfynu prynu cyfranddaliadau am ddau reswm: (1) gan ddisgwyl y bydd gwerth y cyfranddaliadau hynny'n cynyddu dros gyfnod canolig neu hir o amser; (2) gan ddisgwyl y bydd y cwmni'n gwneud elw blynyddol digonol i allu talu difidendau i gyfranddalwyr.

Mewn busnes a berchnogir gan y gweithwyr gallai'r gweithwyr benderfynu prynu cyfranddaliadau at y dibenion uchod, ond hefyd er mwyn bod â hawl i leisio barn ar faterion pwysig mewn perthynas â'r hyn y mae'r busnes yn ei wneud a sut y mae'n ei wneud.

# Pwy sy'n berchen ar gyfranddaliadau mewn cwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr?

Mewn cwmni a berchnogir gan y gweithwyr sydd wedi ennill ei blwyf mae'n debygol y bydd yr holl gyfranddaliadau sydd wedi'u dyroddi gan y cwmni'n cael eu perchnogi gan un neu gymysgedd o blith gweithwyr, ymddiriedolaeth budd gweithwyr, neu gynllun cymhelliant cyfranddaliadau.

Lle mae'n debygol y bydd gweithwyr yn prynu'r cwmni mae'r perchennog/perchnogion presennol yn cytuno i werthu eu holl gyfranddaliadau i un neu gymysgedd o blith gweithwyr, ymddiriedolaeth budd gweithwyr, neu gynllun cymhelliant cyfranddaliadau. Gallai'r trosglwyddiad perchnogaeth hwn ddigwydd dros gyfnod maith o amser os yw gwerth y cyfranddaliadau sy'n cael eu prynu'n rhy uchel i'w prynu trwy

weithred unigol.

Pan fo'r gweithwyr yn berchen ar yr holl gyfranddaliadau mewn cwmni, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy ymddiriedolaeth, mae hyn yn sicrhau y bydd yr holl elw a gaiff ei greu gan ymdrechion a chyfraniad y gweithwyr yn eiddo iddynt hwy yn hytrach na'i fod yn cael ei ddosbarthu i fuddsoddwyr allanol.

# Pa fath o gyfranddaliadau y mae cwmnïau'n eu defnyddio?

Mae'n rhaid bod gan gwmnïau masnachol sy'n seiliedig ar gyfranddaliadau o leiaf un cyfranddaliad wedi'i ddyroddi, ond yn nodweddiadol mae ganddynt nifer o gyfranddaliadau wedi'u dyroddi.

Mae dau fath o gyfranddaliad y gall cwmni eu dyroddi. Yr enwau ar y rhain yw cyfranddaliadau Braint a chyfranddaliadau Cyffredin (ecwiti) a gall cwmni ddyroddi'r ddau fath:

► Cyfranddaliadau braint – mae'r rhain yn dwyn hawliau blaenoriaethol o'i gymharu â chyfranddaliadau cyffredin mewn perthynas â difidendau ac ad-dalu cyfalaf os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben. Mae dalwyr cyfranddaliadau Braint yn derbyn difidend yn ôl cyfradd benodedig. Gall cyfranddaliadau braint fod ar un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfranddaliad Braint Cronnus – Os nad yw cwmni'n gwneud elw digonol mewn blwyddyn benodol, efallai na fydd difidendau ar gyfranddaliadau braint yn cael eu talu am y flwyddyn honno. Os yw'r cyfranddaliadau braint yn rhai cronnus bydd unrhyw ddifidendau sydd heb eu talu ar y cyfranddaliadau hyn yn parhau i gronni a byddant yn daladwy allan o elw'r cwmni mewn blynyddoedd dilynol. Dim ond wedi i ôl-ddyledion o'r fath gael eu talu y gellir talu difidend i ddaliwr cyfranddaliadau cyffredin. Felly mae cyfranddaliwr braint cronnus yn siŵr o dderbyn difidendau ar ei gyfranddaliadau am bob blwyddyn allan o enillion y cwmni.

- Cyfranddaliad Braint Anghronnus – Mae'r difidend penodedig yn cael ei dalu i'r cyfranddalwyr hyn cyn y gellir talu unrhyw ddifidend i gyfranddalwyr cyffredin. Fodd bynnag, os nad oes elw i'w ddosbarthu ymhlith y cyfranddalwyr mewn blwyddyn benodol, ni fydd cyfranddalwyr braint anghronnus yn cael unrhyw ddifidend am y flwyddyn honno ac ni allant ei hawlio yn y flwyddyn nesaf pan all fod elw i'w gael.

- Cyfranddaliad Braint Adbryn – Nid yw cyfalaf a godwyd trwy ddyroddi cyfranddaliadau'n cael ei ad-dalu i'r cyfranddalwyr (ac eithrio trwy brynu cyfranddaliadau yn ôl dan rai amodau). Fodd bynnag, gellir codi cyfalaf trwy ddyroddi cyfranddaliadau braint adbryn. Mae cyfranddalwyr yn buddsoddi trwy gyfrwng y cyfranddaliad braint adbryn, gan dderbyn difidend yn ôl cyfradd benodedig, a chan wybod y bydd y cwmni'n adbrynu'r cyfranddaliadau hyn (yn eu prynu yn ôl) wedi i gyfnod a bennwyd ddod i ben.

- Cyfranddaliadau Braint cyfranogol neu anghyfranogol – cyfranddaliadau Braint sydd, yn ogystal â thalu difidend penodol, yn rhoi'r hawl i gyfranddalwyr gyfranogi o dderbyn difidend ychwanegol os telir difidend i gyfranddalwyr cyffredin uwchlaw swm datganedig. Felly mae cyfranddalwyr braint cyfranogol yn cael elw ar eu cyfalaf ar ddwy ffurf (i) difidend penodedig (ii) cyfran o elw dros ben. Caiff cyfranddaliadau braint nad ydynt yn dwyn hawl i gyfran o elw dros ben eu hadnabod fel cyfranddaliadau braint anghyfranogol.

► Cyfranddaliadau Cyffredin (ecwiti) – Bydd cyfranddalwyr Cyffredin yn cael difidend a bydd cyfalaf yn cael ei ad-dalu iddynt wedi i hawliadau cyfranddalwyr braint gael eu diwallu. Ni fydd cyfradd benodedig o ran y difidend a delir i'r cyfranddalwyr cyffredin a gall y gyfradd hon amrywio o un flwyddyn i'r llall. Caiff y gyfradd ddifidend hon ei phennu gan y cyfarwyddwyr ac yn achos elw mwy, gall fod hyd yn oed yn fwy na'r gyfradd sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau braint. Mae'n bosib y bydd cyfranddalwyr o'r fath yn mynd heb unrhyw ddifidend os na wneir elw.

Mae'n annhebygol iawn y bydd gweithwyr yn dal unrhyw beth heblaw cyfranddaliadau Cyffredin mewn busnes a berchnogir gan y gweithwyr. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd sefydliadau ariannol wedi cymryd cyfranddaliadau braint yn gyfnewid am gyllid i alluogi proses o brynu gan weithwyr i fynd rhagddi.

## Sut arall all cyfranddaliadau fod yn wahanol?

Gall cwmnïau ddyroddi gwahanol ddosbarthiadau o gyfranddaliadau sydd â gwahanol hawliau'n gysylltiedig â hwy. Mae hyn yn galluogi'r cwmni i roi budd i'r cyfranddalwyr mewn gwahanol ffyrdd a chyrraedd nodau gwahanol. Er enghraifft gallai'r cwmni ddyroddi:

- Cyfranddaliadau cyffredin 'A' gyda'r hawliau i dderbyn difidendau, pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol, arbrisio mewn gwerth, a'r holl fuddion eraill sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau.
- Cyfranddaliadau cyffredin 'B' gyda'r hawliau i dderbyn difidendau, arbrisio mewn gwerth, ond heb unrhyw hawliau pleidleisio sy'n golygu na fyddai'r cyfranddaliwr yn gallu pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol neu arbennig rhwng yr aelodau. Yn yr enghraifft hon gall y cyfranddaliwr gael budd o'r wobr ariannol sy'n gysylltiedig â bod yn gyfranddaliwr, ond nid oes rheolaeth na llais ganddo o ran y modd y mae'r busnes yn cael ei redeg.
- Cyfranddaliadau cyffredin 'C' gyda'r hawliau i dderbyn difidendau a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol ac arbennig, ond dim hawl i arbrisio mewn gwerth ac mae'n rhaid adbrynu'r cyfranddaliad am y gwerth gwreiddiol os yw gweithiwr yn gadael y cwmni. Gall cwmni greu'r fath ddosbarth o gyfranddaliadau er mwyn i weithwyr allu elwa o ddifidendau a bod â llais yn y busnes tra'u bod yn cael eu cyflogi, ond cyn gynted â'u bod yn gadael mae'n rhaid iddynt werthu'r cyfranddaliad am y swm y bu iddynt ei dalu amdano.
- Cyfranddaliad Braint Adbryn Arbennig dosbarth 'A' nad yw'n denu difidend ac sy'n cael ei adbrynu am y gwerth gwreiddiol, ond sy'n rhoi'r hawl i'r daliwr ddal 26% o'r bleidlais ar unrhyw faterion y mae'n ofynnol cael penderfyniad arbennig arnynt mewn cyfarfod cyffredinol neu arbennig rhwng yr aelodau.

Mae'r disgrifiadau uchod o ddosbarthiadau cyfranddaliadau wedi'u bwriadu i roi enghraifft yn unig ac fe allai fod gan eich cwmni gyfranddaliadau A, B, C neu arbennig gyda hawliau cwbl wahanol yn gysylltiedig â hwy.

Dylai gweithiwr gyfeirio at Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni er mwyn deall pa hawliau sy'n gysylltiedig â dosbarth penodol o gyfranddaliad.

## Sut y caiff cyfranddaliadau eu rheoli?

Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn diogelu cyfranddalwyr mewn nifer o ffyrdd, ond yr Erthyglau Cymdeithasu yw'r man cychwyn wrth chwilio am wybodaeth am yr hawliau sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau cwmni arbennig.

Mae gan bob cwmni, pa un a ydynt yn sylweddoli hynny ai peidio, 'Erthyglau Cymdeithasu' neu *'Mem and Arts'*. Y rhain yn syml yw'r rheolau gweithredu mewnol sylfaenol ar gyfer busnes ac maent yn rheoli'r amodau o ran pa dasgau y mae angen eu cyflawni, pa swyddi y mae gofyn iddynt gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol, a sut y dylid cyflawni'r prosesau sy'n bodoli.

Yn aml, mae erthyglau cymdeithasu'n ymdrin â materion gweithredu megis galw cyfarfodydd cyffredinol, y broses ar gyfer penodi a diswyddo cyfarwyddwyr, dyroddi cyfranddaliadau, trosglwyddo cyfranddaliadau rhwng cyfranddalwyr, talu difidendau i ddosbarthiadau o gyfranddaliadau a'r dull pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol.

I weithwyr, bydd yr erthyglau cymdeithasu'n cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch y broses ar gyfer prynu a gwerthu eu cyfranddaliadau, y dull a ddefnyddir i brisio'r cyfranddaliadau, yr hawliau sy'n gysylltiedig â dosbarthiadau o gyfranddaliadau, pa hawliau pleidleisio sydd ganddynt a sut i benodi neu ddiswyddo cyfarwyddwyr.

# A yw bod yn gyfranddaliwr yn golygu fy mod yn cael pleidleisio ar yr hyn y mae'r busnes yn ei wneud?

Fel cyfranddaliwr mae gennych hawl i fynychu cyfarfodydd cyffredinol a phleidleisio ar unrhyw benderfyniadau a roddir gerbron yr aelodau. Fodd bynnag, nid yw bod yn gyfranddaliwr yn golygu y byddwch yn rhan o bob penderfyniad strategol neu weithredol y bydd y busnes yn eu gwneud. Rydych yn gallu effeithio ar hyn trwy allu pleidleisio ar benderfyniadau i benodi, ailbenodi neu ddiswyddo Cyfarwyddwyr sydd â'r gorchwyl i redeg y busnes er budd yr aelodau.

Gallai'r mathau o benderfyniadau y pleidleisir arnynt mewn cyfarfodydd cyffredinol gynnwys:

- Penodi a diswyddo cyfarwyddwyr;
- Cymeradwyo cyd-fenter;
- Cymeradwyo gwariant cyfalaf uwchlaw gwerth ariannol penodol;
- Cymeradwyo newidiadau i Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni;
- Rhoi cymeradwyaeth i greu is-gwmni;
- Rhoi cymeradwyaeth i werthu is-gwmni neu ran o'r busnes.

# A yw mwy o gyfranddaliadau'n sicrhau difidendau mwy a mwy o lais?

Ydynt a nac ydynt. O ran difidendau mae'n bwysig cofio y bydd angen talu i unrhyw gyfranddalwyr braint yn gyntaf. A chymryd eu bod hwy wedi cael difidend, bydd cyfranddalwyr Cyffredin wedyn yn derbyn difidend am bob cyfranddaliad a chan hynny bydd mwy o gyfranddaliadau'n golygu mwy o ddifidendau.

Gallai bod yn berchen ar fwy o gyfranddaliadau na chyfranddalwyr eraill eich galluogi i gael mwy o ddylanwad ar y penderfyniadau y mae cwmni'n eu gwneud, ond nid yw hyn wastad yn wir. Mae nifer o gwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn gweithredu dan system '1 person 1 bleidlais'. Yn y bôn mae hyn yn golygu bod gan yr holl aelodau bleidlais gyfartal ar benderfyniadau sydd i'w gwneud mewn cyfarfod cyffredinol ni waeth faint o gyfranddaliadau sydd gan unigolyn.

# A ydw i'n cael pleidlais yn awtomatig fel cyfranddaliwr?

Nid o anghenraid. Mae'n bosib i gwmni ddyroddi cyfranddaliadau 'dibleidlais'. Mae hyn yn golygu, er y bydd y cyfranddaliadau o bosib yn denu difidend ac y gallant godi a gostwng yn eu gwerth, nad yw'r cyfranddaliad yn rhoi'r hawl i'r daliwr bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol neu arbennig rhwng yr aelodau. Bydd Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni'n nodi pa hawliau sy'n gysylltiedig â dosbarth penodol o gyfranddaliadau.

Mae hefyd yn bosib, pan fo gweithiwr yn gadael y busnes, ei fod ef neu ei bod hi'n dod yn 'aelod â chyfyngiadau' ac yn methu â mynychu neu bleidleisio yng nghyfarfodydd y cwmni. Bydd yr Erthyglau Cymdeithasu'n cynnwys unrhyw reol o'r fath.

# Sut mae fy nghyfranddaliadau'n cael eu prisio?

Mae'r dull o brisio cyfranddaliadau'n amrywio rhwng cwmnïau. Bydd rhai cwmnïau'n nodi dull prisio penodol yn eu Herthyglau Cymdeithasu, tra bydd cwmnïau eraill yn datgan yn lle hynny y dylai pris teg ar gyfer cyfranddaliadau gael ei bennu gan gyfrifydd neu archwilwyr y cwmni.

Os yw cyfranddaliadau wedi cael eu prynu gan weithiwr trwy Gynllun Cymhelliant Cyfranddaliadau mae'n rhaid i werth y cyfranddaliadau gael ei gytuno gan adran Prisio Cyfranddaliadau ac Asedau CaThEM.

# Beth sy'n digwydd os ydw i'n dymuno gwerthu fy nghyfranddaliadau?

Bydd y broses ar gyfer gwerthu cyfranddaliadau'n amrywio o un cwmni i'r llall a bydd wedi'i nodi yn Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni. Bydd y rhan fwyaf o gwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn amodi bod yn rhaid i weithiwr sy'n gadael cwmni gynnig gwerthu ei holl gyfranddaliadau i ymddiriedolaeth budd gweithwyr, gweithiwr arall, neu'r cwmni.

Mewn sefyllfa lle mae gweithiwr yn gadael y cwmni gall fod proses lle mae'r cwmni'n cyllido ymddiriedolwyr yr YBG neu Gynllun Cymhelliant Cyfranddaliadau i brynu cyfranddaliadau'r ymadawyr ar yr adeg pan fônt yn gadael. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib iawn na fydd y cwmni'n gallu nac yn barod i gyllido'r ymddiriedolwyr ac felly gall y gweithiwr sy'n gadael fod dan orfodaeth i aros tan y diwrnod prynu a gwerthu nesaf.

Mae cwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn tueddu i weithredu diwrnod prynu a gwerthu blynyddol gyda'r bwriad o baru pobl sy'n dymuno gwerthu cyfranddaliadau â phobl sy'n dymuno prynu cyfranddaliadau. Mae diwrnod prynu a gwerthu o'r fath yn ei gwneud yn bosib cynnig y cyfranddaliadau i weithwyr eraill eu prynu a dylai'r prosesau penodol fod wedi'u dogfennu ac ar gael i gyfranddalwyr.

Mae'n ddigon posib na fydd gweithiwr yn gallu gwerthu ei g/chyfranddaliadau. Ni fydd y cwmni dan orfodaeth i brynu cyfranddaliadau cyffredin, nac i roi arian 'yn rhodd' i YBG neu Gynllun Cymhelliant Cyfranddaliadau er mwyn prynu'r cyfranddaliadau.

# A oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â bod yn gyfranddaliwr?

Gall bod yn berchen ar gyfranddaliadau yn eich busnes gynnig llawer o fanteision megis difidendau, cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau a chyfle i roi eich barn ar benderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â'r busnes.

Fodd bynnag, mae rhai risgiau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt. Yn wahanol i unrhyw fuddsoddiad arall, gallai gwerth eich cyfranddaliadau ostwng petai'r busnes yn methu perfformio dros gyfnod o amser. Nid oes sicrwydd y byddwch yn cael yr un faint o arian yn ôl o'r cwmni ag y gwnaethoch ei fuddsoddi trwy brynu cyfranddaliadau.

Petai'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben mae'n bosibl y gallech golli eich buddsoddiad yn llwyr os nad oes arian ar ôl i'r cyfranddalwyr ar ôl talu'r holl ddyledion eraill.

Efallai y bydd rhai pobl yn poeni trwy ddod yn gyfranddaliwr yn y cwmni y bydd hyn yn peri risg i'w tai a'u heiddo personol; nid yw hyn yn wir. Mae eich atebolrwydd fel cyfranddaliwr yn gyfyngedig i werth eich buddsoddiad. Mae hyn yn golygu petaech yn buddsoddi £1000 trwy brynu cyfranddaliadau a bod y busnes yn cael ei ddirwyn i ben byddai'r golled i chi yn gyfyngedig i £1000 – sef gwerth eich buddsoddiad.

# A oes unrhyw oblygiadau o ran treth yn gysylltiedig â bod yn gyfranddaliwr? (ar sail cyfraddau treth 2014/15 CThEM)

Oes. Rhaid i chi dalu treth ar unrhyw ddifidendau y byddwch yn eu cael ac os byddwch yn gwerthu eich cyfranddaliadau am elw mae'n bosibl y bydd Treth ar Enillion Cyfalaf yn ddyledus ar unrhyw elw y byddwch yn ei wneud.

Mae difidendau yn drethadwy ar gyfradd o 10% ar gyfer unigolion y mae eu hincwm blynyddol cyfanredol ar lefel y gyfradd sylfaenol sef £31,865 neu'n is na hynny.

Ar gyfer unigolion y mae eu hincwm blynyddol cyfanredol yn uwch na £31,866 ond yn is na £150,000 codir treth o 32.5% ar ddifidendau.

Ar gyfer unigolion y mae eu hincwm blynyddol cyfanredol yn uwch na £150,000 codir treth o 37.5% ar ddifidendau.

Bydd gwerthu eich cyfranddaliadau'n cael ei ystyried gyfystyr â gwerthu ased cyfalaf at ddibenion treth a gallai Treth ar Enillion Cyfalaf fod yn ddyledus ar werth yr elw. Fodd bynnag, ceir lwfans blynyddol o ran Treth ar Enillion Cyfalaf ar gyfer unigolion, sy'n £11,000 ar hyn o bryd, ac felly ar yr amod nad yw'r elw'n uwch na hyn nid oes treth yn daladwy.

Er enghraifft - os gwnaethoch brynu 1,000 o gyfranddaliadau yn 2010 am £1 y cyfranddaliad a'u gwerthu yn 2014 am £6 y cyfranddaliad byddech wedi gwneud elw o £5,000 ac ni fyddech yn talu unrhyw Dreth ar Enillion Cyfalaf oherwydd byddai'r elw o fewn eich lwfans blynyddol.

Os gwnaethoch brynu 1,000 o gyfranddaliadau yn 2010 am £1 y cyfranddaliad a'u gwerthu am £16 y cyfranddaliad byddech wedi gwneud elw o £15,000. Byddech felly £4,000 y tu hwnt i'r lwfans blynyddol (£15,000 - £11,000) a byddech yn talu treth ar 18% os yw cyfanswm eich incwm yn is na'r terfyn treth cyfradd sylfaenol, neu 28% os yw cyfanswm eich incwm blynyddol yn uwch na'r terfyn treth cyfradd sylfaenol.

# Rhagor o wybodaeth

Lluniwyd y canllaw hwn ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru. Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Nod Busnes Cymdeithasol Cymru yw cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n awyddus i dyfu. Am ragor o gymorth, cysylltwch â:

Busnes Cymru: http://busnescymru.llyw.cymru   Ffôn: 03000 6 03000

Neu ewch i'r pecyn cymorth ar-lein http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX
Ffon: 0300 111 5050
Ebost: info@wales.coop
Y We: www.wales.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ni fydd gohebu â ni yn Gymraeg yn arwain at **unrhyw** oedi.